Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Cyfronnydd I Heniarth, Powys) (Cyfyngiadau A Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra gwneir gwaith gosod wyneb newydd a gwaith cynnal a chadw ar Gefnffordd Amwythig – Dolgellau (yr A458) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") rhwng Cyfronnydd a Heniarth yn Sir Powys.

Disgwylir i'r cyfyngiadau a'r gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol amdanynt, fod mewn grym o 30 Tachwedd 2012 hyd 17 Rhagfyr 2012 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir mai dim ond rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch y bydd y gwaith yn digwydd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gosod terfyn cyflymder 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfynau cyflymder 40 mya a 30 mya yn weithredol dros hyd a lled cyfan y darn penodedig o'r gefnffordd, a bydd y terfyn cyflymder 10 mya yn gymwys pan fydd gwaith confoi'n digwydd ar unrhyw ddiwrnod penodol.

ii. Gwahardd cerbydau sy'n fwy na 2.5 metr o led, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1. Disgrifir y llwybr amgen yn Atodlen 2.

iii. Gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 tra bo gwaith confoi'n digwydd arno.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/2012).

M D BURNELL
Trafnidiaeth

YR ATODLENNI

Atodlen 1

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4392 yng Nghyfronnydd hyd ganolbwynt ei chyffordd â'r B4389 yn Heniarth.

Atodlen 2

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau sy'n mynd tua'r gorllewin fydd dilyn yr A458 tua'r dwyrain o Gyfronnydd i'r gyffordd y gylchfan â'r A490 yn y Trallwng, yr A490 tua'r gogledd i'w chyffordd a'r A495, yr A495 tua'r de-orllewin i'w chyffordd â'r A458 ym Mhont Neuadd a'r A458 tua'r dwyrain yn Heniarth. Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd i'r gwrthwyneb.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A458 Trunk Road (Cyfronydd to Heniarth, Powys) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibitions) Order 2012

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to maintain the safety of road users and the workforce whilst resurfacing and maintenance works are undertaken on the Shrewsbury – Dolgellau Trunk Road (A458) (hereinafter referred to as "the trunk road") between Cyfronydd and Heniarth in the County of Powys.

The restrictions and prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to be in force from 30 November 2012 until 17 December 2012 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are only expected to take place between 08:00 hours and 18:00 hours.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Impose a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The 40 mph and 30 mph speed limits will operate over the full extent of the length of the trunk road and the 10 mph speed limit will apply when convoy working is in force on any given day.

ii. Prohibit vehicles with widths greater than 2.5 metres, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding in the length of the trunk road specified in Schedule 1. The alternative route is described in Schedule 2.

ii. Prohibit all vehicles from overtaking in the length of the trunk road specified in Schedule 1 whilst convoy working is in force.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2012).

M D BURNELL
Transport

SCHEDULES

Schedule 1

The length of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the B4392 at Cyfronydd to the centre-point of its junction with the B4389 at Heniarth.

Schedule 2

The alternative route for westbound vehicles will be to follow the A458 eastbound from Cyfronydd to the roundabout junction with the A490 at Welshpool, the A490 northbound to its junction with the A495, the A495 south-westbound to its junction with the A458 at Neuadd Bridge and the A458 eastbound to Heniarth. The alternative route for eastbound vehicles will be vice versa.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE